

PhytoQuest

Proffil y Cwmni

Mae PhytoQuest yn olrhain ei hanes yn ôl i 1999 pan sefydlodd yr Athro Robert Nash gwmni Molecular Nature Limited (MNL) fel is-gwmni i Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER) y Deyrnas Unedig. Yn 2006, prynwyd MNL gan Summit Plc., ac yn 2009, fe wnaeth MBO alluogi creu PhytoQuest Ltd.

Ers hynny, mae PhytoQuest wedi datblygu ymchwil wyddonol i nodi cyfansoddion a chynhwysion naturiol gan dargedu cynhyrchion byw'n iach â lefel elw uchel sy'n deillio o'r sectorau bwyd, deunydd fferyllol a cholur.




Cyfarwyddwr PhytoQuest, Robert Nash, yng Nghyfleusterau BEACON yn Aberystwyth

Cydweithio â BEACON

Ar hyn o bryd, mae PhytoQuest yn cyflawni nifer o gcontractau ymchwiliadol i gynhyrchwr bwyd mawr yn y Deyrnas Unedig. Un prosiect a wnaed oedd proffilio cyfansoddion yn eu ffrwd gwastraff presennol.

Oherwydd bod gofyn am offer prosesu maint peilot, gan gynnwys allgyrchu parhaus a hidlo wltra, trodd PhytoQuest at BEACON i ddatblygu cydweithrediad synergyddol.

Rhoddodd Robert samplau o ffrwd gwastraff y cleient i BEACON, a gofynnodd i BEACON ffracsiynu'r toddiant ar sail pwysau a maint molecylaidd. Gwnaed hyn gan ddefnyddio allgyrchu parhaus CEPA a hidlo croeslif sy'n rhannu yn ôl maint (Sartoflow-). Cafodd y ffracsiynau a gynhyrchwyd eu proffilio gan ddefnyddio ystod o dechnegau dadansoddol gan PhytoQuest a BEACON ar gyfer amrywiaeth o fathau o gyfansoddion.

Cadarnhaodd y canlyniadau fod 'alcoholau siwgr' yn elfen fawr o'r deunyddiau a ddarparwyd, a nodwyd ffracsiwn peptid â gwerth uchel posibl hefyd.

“ Mae BEACON wedi ychwanegu gwerth at ein cwmni trwy ddefnyddio offer maint peilot nad yw ar gael ar hyn o bryd mewn unrhyw sefydliad arall y gwyddom amdano ”

Robert Nash - Cyfarwyddwr

Mae cydweithio â BEACON wedi galluogi PhytoQuest i barhau â'u gwaith ymchwil a datblygu gyda'r cynhyrchwr bwyd o'r DU a pharhau i ychwanegu gwerth at eu ffrydiau gwastraff. Yn hydref 2013, dechreuodd PhytoQuest gydweithio â BEACON am yr ail dro. Yn hyn, roedd PhytoQuest yn defnyddio cymorth uwchraddio i ddatblygu proses echdynnu newydd.



I gael mwy o wybodaeth am y gwaith a wneir gan PhytoQuest, ewch i: www.phytoquest.co.uk